Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 10 GORFFENNAF 2020, trwy Microsoft Teams.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth (tan gofnod 88); Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (o gofnod 82); Ms Meri Huws; Mr Richard John; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Mr Ian MacEachern; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Mrs Fiona Sharp; Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer cofnodion 82 ac 83).

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

76. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   Roedd Nate Pidcock, Llywydd UMAber; a Moc Lewis, Llywydd UMCA, yn swyddogion sabothol, ac felly yn aelodau o Gyngor y Brifysgol, ers 01 Gorffennaf 2020. Wrth eu croesawu i'r corff llywodraethu, mynegodd yr aelodau hefyd eu diolch am y cyfraniad a wnaed gan eu rhagflaenwyr, Dhanjeet Ramnatsing a Tomos Ifan, a ddaeth i ben eu cyfnodau ar 30 Mehefin 2020.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Joshua King, Porthor Adnoddau;

   2. Dr Tedi Millward, cyn-Ddarlithydd y Gymraeg;

   3. Martin Nelms, Darlithydd Cyswllt yn y Gyfadran Busnes a Gwyddorau Ffisegol; a

   4. Bruce Tyler, cyn-Bennaeth yr Uned Adnoddau Genetig Planhigion.

3. Llongyfarchion

   Llongyfarchwyd y cydweithwyr canlynol ym Mhrifysgol Aberystwyth ar eu gwneud yn Gymrodyr o Gymdeithas Ddysgedig Cymru:

   1. Yr Athro Glyn Hewinson, Athro Cadeiriol Sêr Cymru II a Chyfarwyddwr Canolfan Ragoriaeth ar gyfer y Diciâu mewn Gwartheg;

2. Yr Athro Emyr Lewis, Athro yn y Gyfraith a Phennaeth Adran y Gyfraith a Throseddeg;

3. Yr Athro Ryszard Piotrowicz, Athro yn y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth;

4. Yr Athro David Rabey, Athro mewn Theatr ac Arfer Theatr, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; a

5. Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

4. Covid-19

1. Ar 15 Mehefin 2020, cynhaliwyd galwad gynadledda ychwanegol i aelodau'r Cyngor ynglŷn ag ymateb y sefydliad i bandemig coronafeirws COVID-19. Byddai diweddariad pellach ynglŷn â datblygiadau mwy diweddar yn cael ei roi yn ystod y cyfarfod.

2. Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, cafodd grŵp bach ei gynnull i gynnig cymorth a chyngor i'r Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, cadeiryddion y tri phrif is-bwyllgor, a'r Athro Syr Robin Williams.

3. Roedd y Cyngor Cyllido wedi ffurfio Grŵp 'Looking Forward/Edrych Ymlaen' ac roedd yr Is-Ganghellor yn aelod ohono. Roedd y grŵp yn datblygu cais i Lywodraeth Cymru am gyfran o gyllid cyfraniadol Barnett sydd ar gael o ganlyniad i ymateb Llywodraeth San Steffan i Covid-19. Roedd y cais yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod, fel Cadeirydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC), wedi gweithio gyda chyd-aelodau ChUW a Phrifysgolion Cymru ar y cais hwn. Croesawodd yr aelodau'r cydweithredu ymhlith prifysgolion yng Nghymru ar y mater.

3. Dull cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly yn cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a eglurwyd ar y flaenddalen.

77. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Atgoffodd Meri Huws yr aelodau ei bod yn un o Gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC). Nid oedd gofyn i'r Cyngor gymryd unrhyw benderfyniad a fyddai'n berthnasol i'r CCC yn ystod y cyfarfod, er y byddai cynnydd PA yng nghyswllt targedau'r CCC yn cael eu hystyried yn rhan o'r adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Ni ystyriwyd felly bod angen i Meri Huws ymesgusodi o'r drafodaeth honno.

78. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2020 (COU1920-124).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

79. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1920-125).

NODWYD

1. Pantycelyn (cofnod 4.1.3)

   Roedd y prosiect yn tynnu at ei derfyn, a gellid felly nodi ei fod wedi'i gwblhau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Diweddariad Iechyd a Diogelwch (cofnod 65.2)

   Oherwydd y cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad i Covid-19, nid oedd cydweithwyr o adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi gallu cyflwyno adroddiad ynglŷn â threfniadau parhad busnes i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2020. Byddai'r adroddiad nawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ll&Ch yn yr hydref.

3. Strategaeth Ystadau (cofnod 57.2.1)

   1. Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr aelodau bod y gwaith angenrheidiol i baratoi'r campws ar gyfer Covid yn gofyn am wneud newidiadau i'r defnydd a wneir o'r ystâd, gan gynnwys ailagor campws Llanbadarn, a gwneud rhai o'r mannau gweinyddol yn addas dros dro ar gyfer dysgu ac ymchwil gan chydymffurfio â gofynion pellter cymdeithasol.

   2. Roedd y Brifysgol wedi cytuno â barn yr ymgynghorwyr allanol y dylid gohirio paratoi'r Strategaeth derfynol ar gyfer yr Ystadau tan yr hydref, ac i ehangu'r cylch gorchwyl i gynnwys portffolio preswyl y sefydliad. Fe fyddai cyfle hefyd i ystyried goblygiadau hir dymor posibl y model dulliau cymysg o addysgu a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2020-21.

4. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

80. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-126).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

    1. Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2020-24, i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol erbyn 31 Mawrth 2020; a

    2. Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2018-19, i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol erbyn 31 Mawrth 2020.

3. Y mater a gymeradwywyd gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu oedd:

    1. Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles Myfyrwyr, i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido erbyn 26 Mehefin 2020.

81. GOHEBIAETH

1. Datganiad Sicrwydd Blynyddol y Corff Llywodraethu ynglŷn ag Ansawdd

    DERBYNIWYD

    Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC (COU1920-127).

    NODWYD

    Ar 04 Mehefin 2020, derbyniodd Cadeirydd y Cyngor lythyr gan Brif Weithredwr CCAUC, Dr David Blaney, i roi gwybod bod pwyllgor cyllid CCAUC wedi ystyried ymatebion y Brifysgol i'r datganiadau a'u bod yn fodlon â hwy.

2. Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021-22

    DERBYNIWYD

    Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC (COU1920-156).

    NODWYD

    Ar 27 Mai 2020, derbyniodd Cadeirydd y Cyngor lythyr gan Brif Weithredwr CCAUC, yn dweud er bod y Cyngor Cyllido wedi cymeradwyo cais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad 2021-22, bod angen rhagor o wybodaeth ynglŷn ag agweddau penodol o'r Cynllun. Cafodd ymateb ei anfon at Dr Blaney gan Gadeirydd y Cyngor yn rhoi eglurhad ar y materion a godwyd gan y Cyngor Cyllido.

82. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1920-128).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; diweddariad ynglŷn â chofrestru myfyrwyr a chynllunio; ac adroddiad ar gyfathrebiadau.

2. Roedd nifer y ceisiadau a derbyniadau am fynediad ym mis Medi 2020 yn dal yn uwch na'r un adeg y llynedd. Ond, roedd arwyddion yn cynyddu y byddai'r Clirio yn hynod gystadleuol, a disgwylir y bydd prifysgolion nad ydynt yn aml yn cymryd rhan ynddo yn gwneud hynny eleni oherwydd y cwymp yn niferoedd myfyrwyr rhyngwladol.

3. Llongyfarchodd yr aelodau'r cydweithwyr a fu'n llwyddiannus yn y prosesau diweddar i benodi i Gadeiriau a phenodi Penaethiaid Adrannau. Ond, mynegodd yr Is-Ganghellor ei siom nad oedd y panel a gafodd ei gynnull i ystyried ceisiadau am Gadair Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd wedi gallu gwneud penodiad. Roedd gwahanol ddewisiadau ar gyfer y swydd hon yn awr yn cael eu hystyried.

4. Gwaddoliad Cadair Woodrow Wilson gan y chwiorydd Davies ym 1919 a nododd sefydlu Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol y Brifysgol. Wedyn, ac yntau'n Arlywydd yr Unol Daleithiau, parchwyd Woodrow Wilson fel sylfaenydd Cynghrair y Cenhedloedd. Ond, dros y degawdau diweddar, roedd enw da hanesyddol Wilson wedi dirywio'n ddramatig wrth i haneswyr sylweddoli dwyster ei hiliaeth, a oedd yn anghyson â'r arfer ganrif yn ôl.

5. Yng ngoleuni'r adolygu hanesyddiaethol, roedd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol wedi trafod ei chyswllt â Wilson yn helaeth yn ystod blwyddyn ei chanmlwyddiant. Roedd datblygiadau diweddar gyda'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn rhyngwladol wedi rhoi hwb pellach i'r drafodaeth, ac roedd yr Adran nawr yn argymell y dylid adolygu enw'r Gadair. Cafodd hyn ei drafod gan yr aelodau.

6. Cyn hynny, bu'r Brifysgol yn pwyso a mesur a oedd y brifysgol wedi cael ei sefydlu ar elw a wnaed drwy gaethwasiaeth ac fe ddaethpwyd i'r casgliad nad oedd. Serch hynny, yng ngoleuni'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, roedd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu, ochr yn ochr ag adolygiad ehangach o gasgliadau a daliadau hanesyddol y Brifysgol.

PENDERFYNWYD

7. Cytuno mewn egwyddor â'r cynigion i ailenwi Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn amodol ar ganlyniad ymgynghori ffurfiol â'r teulu Davies a, lle bo'n briodol, â'r Comisiwn Elusennau. (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

83. COVID-19: YMATEB Y SEFYDLIAD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-129).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi ymateb y Brifysgol, hyd yn hyn, i Covid-19; ac fe'i fwriadwyd i ategu cyfres o ddiweddariadau llafar i'r Cyngor, ac i grŵp anffurfiol yn cynnwys cadeiryddion y Cyngor a'r is-bwyllgorau.

2. Cafodd natur gynhwysfawr yr adroddiad ei groesawu ac fe'i drafodwyd gan yr aelodau.

3. Cydnabu'r aelodau'r ymdrech sylweddol a wnaed gan staff y Brifysgol ers dechrau'r cyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 i addasu i'r newid yn yr amgylchiadau. Roedd hyn wedi

cynnwys addasu asesiadau a chwblhau'r addysgu am y flwyddyn wrth geisio ymdopi â gweithio o gartref a chyfrifoldebau gofal. Mynegodd y Cyngor ei werthfawrogiad, a gofyn i'r Is-Ganghellor drosglwyddo'r neges i'r Brifysgol (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

84. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd; ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-130).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) ar 11 Mehefin 2020, ac yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau iechyd a diogelwch ymateb y sefydliad i'r pandemig Covid-19.

2. Er bod rhai gweithgareddau busnes a gweithgareddau nad oedd modd eu cyflawni o bell wedi parhau ar y campws dros y cyfnod clo, roedd mwyafrif y staff wedi bod yn gweithio o'u cartrefi. Roedd yn debygol hefyd y byddai staff gwasanaethau proffesiynol yn parhau i weithio o bell am weddill y flwyddyn academaidd er mwyn rhyddhau lle ychwanegol i weithgareddau dysgu ac addysgu o bellter cymdeithasol yn nhymor yr hydref.

3. Yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2020, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch am gael diweddariad i Gynllun Blynyddol Iechyd Diogelwch a'r Amgylchedd wedi ei baratoi a'i ddosbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost erbyn canol mis Gorffennaf 2020. Byddai'r cynllun diwygiedig yn tywys unrhyw benderfyniad ynglŷn ag adnoddau ychwanegol i gynorthwyo tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn y cyfnod hwn.

85. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

NODWYD

1. Roedd swyddogion sabothol newydd wedi dechrau yn eu swyddi ers 10 diwrnod yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber). Felly, rhoddwyd crynodeb llafar gan y myfyrwyr am yr hyn yr oeddent hwy a'u cyd swyddogion yn gobeithio ei gyflawni dros y flwyddyn i ddod.

2. Mynegodd yr aelodau eu siom bod rhai landlordiaid preifat wedi parhau i fod yn afresymol wrth drin myfyrwyr a oedd yn denantiaid iddynt yn ystod y cyfnod clo, a bod rhai wedi mynnu bod myfyrwyr yn gadael eu llety heb ostyngiad yn y rhent taladwy.

86. MATERION ARIANNOL

1. <u>Diweddariad Ariannol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU1920-131).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 3 (30 Ebrill 2020), ac roedd yn cynnwys yr hyn y rhagwelir fydd effaith Covid-19 ar alldro ariannol y Brifysgol am y flwyddyn ariannol gyfredol.

2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2020.

2. <u>Cyllideb 2020-21, a rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2023-24</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, yn ymgorffori'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 (COU1920-132).

NODWYD

1. Roedd cyllideb ofalus mewn diffyg yn cael ei chynnig am 2020-21, i adlewyrchu'r effeithiau a ragwelir ar y Brifysgol oherwydd Covid-19. Roedd y cynllunio sefyllfaoedd posibl a wnaed gan y Brifysgol yn ystod mis Mai a dechrau Mehefin 2020 wedi bwydo i ddatblygiad y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'r rhagolygon am niferoedd myfyrwyr ym mis Medi 2020.

2. Roedd y Cyngor Cyllido yn mynnu bod prifysgolion yn modelu dwy sefyllfa bosibl lle ceid gostyngiad yn niferoedd myfyrwyr o'i gymharu â 2019-20. Er bod nifer y ceisiadau a derbyniadau am fynediad ym mis Medi 2020 yn dal yn uwch na'r un adeg y llynedd, roedd y Brifysgol serch hynny ym mabwysiadau gofal yn y gyllideb ddrafft, a oedd wedi'i seilio ar ostyngiad yn nifer y myfyrwyr.

3. Fel cam arall, roedd cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor wedi'i drefnu ar 27 Awst 2020. Ni fyddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal oni bai bod niferoedd myfyrwyr yn waeth na'r hyn y cyllidwyd ar ei gyfer, ac o ganlyniad bod angen brys i ddiwygio cyllideb sefydliadol 2020-21.

4. Roedd y gyllideb ddrafft wedi'i hystyried a'i chymeradwyo mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 26 Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo cyllideb 2020-21, ac i nodi'r rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2023-24 (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid).

3. <u>Ystyriaethau Ariannol Pellach</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1920-134).

NODWYD

1. Yn rhan o'r gwaith paratoi am Gyllideb 2020-21 a'r rhagolygon tair blynedd, roedd y Brifysgol wedi asesu'r angen posibl am gymorth allanol gyda llif arian oherwydd effaith Covid-19 ar gyllid y sefydliad. Roedd y papur hwn yn nodi nifer o opsiynau a gafodd eu hystyried er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni

ymrwymiadau'r Brifysgol, yn enwedig yn ystod y cyfnodau cyfyng ym misoedd Awst a Medi. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl.

2. Er mwyn diogelu'r llif arian, roedd y Brifysgol yn manteisio, neu'n bwriadu manteisio ar nifer o becynnau cymorth y llywodraeth, gan gynnwys: y Cynllun Cadw Swyddi (Ffyrlo) trwy gyfnod y Coronafeirws, cynllun gohirio TAW HMRC, a chynllun Amser i Dalu HMRC ar gyfer trethi cyflogaeth. Daethpwyd hefyd i gytundeb gyda Legal & General (L&G) i ohirio rhent yn achos Fferm Penglais. Nododd yr aelodau y byddai llog ychwanegol i'w dalu o ganlyniad i ohirio rhai o'r taliadau hyn.

3. Er y byddai cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu yn y gyllideb i symud ymrwymiadau presennol yn eu blaen, byddai gostyngiad yn cael ei wneud i'r rhaglen o wariant cyfalaf 'Gwarchod a Sefydlogi' yn 2020-21 i flaenoriaethu cadw arian parod.

4. Cynigiwyd hefyd y dylai'r Brifysgol fanteisio ar y Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes Mawr (CLBILS) yn rhan o'r camau sy'n cael eu cymryd yn sgil y Coronafeirws i ddiogelu'r llif arian gweithredol. Byddai hynny'n cael ei ystyried yn rhan o'r eitem nesaf ar yr agenda.

5. Fel cam pellach, roedd yr adroddiad yn cynnig defnyddio rhai o fuddsoddiadau'r Brifysgol i ddarparu arian pe byddai angen. Cafwyd trafodaeth hir am y cynnig hwn gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) ar 26 Mehefin 2020. O ganlyniad i'r drafodaeth honno, cynigiwyd y dylai'r brifysgol gadw enillion buddsoddiadau a oedd yn y broses o gael eu terfynu i'w buddsoddi mewn cronfeydd eraill. Roedd y cynnig diwygiedig hwn wedi'i nodi'n fanwl yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo gohirio'r rhaglen Gwarchod a Sefydlogi am y flwyddyn academaidd i ddod (ar wahân i waith angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch ac â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd) (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

7. Y dylai'r Brifysgol gadw enillion o'r hyn sy'n cael ei dynnu o L&G ar ffurf arian parod am gyfnod byr tan y gwelir nad oes angen am arian pellach; ac y dylid ail-fuddsoddi'r arian hwn yng nghronfeydd Northern Trust ar y cyfle cyntaf posibl (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

8. Y dylai'r Is-Ganghellor ysgrifennu at Brif Weithredwr y Cyngor Cyllido, fel y mynnir gan y Cod Rheoli Cyllidol, i'w hysbysu'n ffurfiol fod y Brifysgol yn rhagweld lefelau isel o hylifedd a'i bod yn cymryd camau priodol yn y cyswllt hwn (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

4. <u>Cynnig i ymestyn Benthyca Cyllidol</u>

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1920-133); a

2. Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC yn cytuno mewn egwyddor i'r Brifysgol gynyddu trothwy ei hymrwymiadau ariannol (COU1920-157).

NODWYD

3. Yn rhan o'r camau arfaethedig i ddiogelu llif arian gweithredol, roedd y Brifysgol yn trafod â darparwr cyfredol Adnodd Credyd Cylchdroawl y sefydliad gyda golwg ar gytuno ar Gredyd pellach o dan y Cynllun CLBILS. Yn ôl telerau'r cynllun hwn, byddai 80% o'r benthyciadau ychwanegol yn cael ei warantu gan Lywodraeth San Steffan.

4. Roedd adborth cychwynnol gan y benthyciwr yn gadarnhaol, er y byddai angen cael cadarnhad credyd terfynol ar gais y Brifysgol yn unol â phrosesau mewnol y benthyciwr. Prisio mynegol felly a gynhwyswyd yn yr adroddiad, a byddai'r telerau terfynol yn cael eu dosbarthu i'r Cyngor i gytuno arnynt trwy ohebiaeth ar ôl eu derbyn gan y benthyciwr.

5. Yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2020, cytunodd y Pwyllgor A&Ph i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol rannu copi o ddrafft cyllideb y Brifysgol a 2020-21 â'r Cyngor Cyllido. Cyn cyfarfod y Cyngor, roedd Prif Weithredwr CCAUC wedi ysgrifennu'n ffurfiol at Gadeirydd y Cyngor i ddweud bod y Cyngor Cyllido wedi cytuno mewn egwyddor i'r Brifysgol gynyddu trothwy ei hymrwymiadau ariannol er mwyn caffael Adnodd Credyd Cylchdroawl pellach. Yn y llythyr, nododd y Cyngor Cyllido'r camau yr oedd angen i'r Brifysgol eu cymryd nawr i gydymffurfio â gofynion y Cod Rheoli Cyllidol.

PENDERFYNWYD

6. Cytuno mewn egwyddor i gynnydd hyd at £5m mewn benthyca, yn amodol ar i bob aelod gael manylion telerau ac amodau llawn yr adnodd i'w cymeradwyo trwy ohebiaeth. (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

87. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU1920-135).

NODWYD

1. Cyflwynai'r adroddiad bwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

PENDERFYNWYD

2. Y dylid cyflwyno adroddiad manylach i gyfarfod nesaf y Pwyllgor A&Ph ar niferoedd y myfyrwyr amser llawn sy'n astudio 40 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg (GWEITHREDU: Pennaeth Cynllunio).

88. IS-GWMNI

1. <u>Is-Gwmni Masnachu Newydd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (COU1920-136).

NODWYD

1. Roedd cynigion i adnewyddu'r Hen Goleg yn mynd yn eu blaen, a byddai'r hyn a gynigir ar gyfer yr adeilad yn cynnwys gweithgareddau masnachu anelusennol. Er bod y Brifysgol ar hyn o bryd yn ymgymryd â chyfran fach o fasnachu anelusennol, ni fyddai'r HMRC a'r Comisiwn Elusennau yn edrych yn ffafriol iawn pe byddai asedau elusennol yn cael eu defnyddio i ymgymryd â gweithgareddau masnachu anelusennol mwy sylweddol.

2. Nodai'r adroddiad fanteision ac ystyriaethau allweddol sefydlu is-gwmni masnachu newydd i gynnal gweithgareddau anelusennol a fyddai'n cael eu cynnig yn yr Hen Goleg. Er mai ar yr Hen Goleg y byddai'r is-gwmni'n canolbwyntio ar y cychwyn, gellid yn y dyfodol efallai ddefnyddio'r is-gwmni newydd ar gyfer gweithgareddau masnachu eraill, er enghraifft y Byncws a Chanolfan y Celfyddydau.

3. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor A&Ph ar 11 Mehefin 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynigion.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo sefydlu is-gwmni cwbl newydd yn eiddo llwyr i Brifysgol Aberystwyth i ymgymryd â gweithgareddau masnachu anelusennol yng nghyswllt yr Hen Goleg ar ôl ei adnewyddu (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol).

2. <u>Polisi Is-Gwmni'r Brifysgol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol; ac Ysgrifennydd y Brifysgol; yn ymgorffori drafft Polisi a Gweithdrefnau Is-Gwmni Prifysgol Aberystwyth (COU1920-137).

NODWYD

1. Roedd adolygiad a wnaed o weithrediadau masnachu anelusennol y Brifysgol, a'r cynnig ar wahân i sefydlu is-gwmni a fyddai'n eiddo i'r Brifysgol yn llwyr i gyflawni gweithrediadau masnachu anelusennol wedi tynnu sylw at yr angen i ddatblygu Polisi a Gweithdrefnau i Is-Gwmnïau.

2. Roedd dogfen ddrafft y Polisi a'r Gweithdrefnau yn nodi gofynion perthnasol ffurfio, llywodraethu, a diddymu is-gwmnïau'r Brifysgol. Roedd hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr yr is-gwmnïau, a threfniadau rheoli cyllidol.

3. Ystyriwyd drafft y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau gan y Pwyllgor A&Ph ar 26 Mehefin 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo dogfen Polisi a Gweithdrefnau Is-Gwmnïau Prifysgol Aberystwyth (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid; ac Ysgrifennydd y Brifysgol).

89. CANLYNIAD HOLIADUR HUNAN-ASESU'R CYNGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-138).

NODWYD

1. Rhwng 29 Ebrill a 21 Mai 2020, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i lenwi holiadur er mwyn rhoi adborth adeiladol ynglŷn ag effeithlonrwydd y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Roedd y canlyniadau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a chawsant eu trafod gan yr aelodau.

2. Mynegodd yr aelodau ddymuniad i ailgydio yn y trefniadau a weithredwyd cyn y cyfnod clo, sef cynnal sesiynau gwybodaeth a sesiynau hyfforddi yn union cyn cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor, ac y dylid cynnwys sesiwn yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 ynglŷn â'r dull o gyflwyno trefniadau cyllidol y Brifysgol.

90. DIWYGIADAU I DDOGFENNAU LLYWODRAETHU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-139).

NODWYD

1. Yn draddodiadol, mae Ysgrifennydd y Brifysgol yn adolygu dogfennau llywodraethu a Rheolau Sefydlog y Brifysgol bob gwanwyn. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno canlyniadau'r adolygiad diweddaraf, gyda golwg ar nifer o ddiwygiadau a gynigir i'r Ordinhadau o ganlyniad i gynllun gweithredu y cytunwyd iddo gan y Cyngor ar 27 Ebrill 2020 i ymateb i *Adolygiad o Lywodraethu'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru* .

2. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Ll&Ch ar 11 Mehefin, a chan y Senedd ar 24 Mehefin 2020. Roedd y ddau gorff wedi argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Ordinhadau, i ddod i rym ar 01 Awst 2020 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

91. AELODAETH Y CYNGOR A'I IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-140).

NODWYD

1. Byddai tri lle gwag ar gael i Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Cyngor o 01 Awst 2020 ymlaen, ac un lle gwag i Aelod Annibynnol wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARS). Hysbysebwyd y lleoedd gwag rhwng 27 Mawrth ac 17 Ebrill 2020, ac fe gafodd rhestr fer o ymgeiswyr eu cyfweld ar 01 Mehefin 2020.

2. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno canlyniad y cyfweliadau, ac argymhellion ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol newydd i wasanaethu ar y Cyngor a / neu is-bwyllgorau llywodraethu. Roedd newidiadau'n cael eu cynnig hefyd i aelodaeth rhai Aelodau Annibynnol presennol ar is-bwyllgorau, er mwyn dosbarthu aelodaeth yr is-bwyllgorau'n well ymhlith yr Aelodau Annibynnol, ac i ymateb i leoedd gwag ar gyfer Cadeirio is-bwyllgorau.

3. Ar hyn o bryd roedd Ian MacEachern yn gwasanaethu ar y Pwyllgor ARS a'r Pwyllgor A&Ph. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylid penodi un o'r Aelodau Annibynnol newydd hefyd i wasanaethu ar y Pwyllgor ARS a'r Pwyllgor A&Ph. O ystyried y ffocws cynyddol ar hyfywedd cyllidol yn y sector, roedd traws-gynrychiolaeth o'r fath yn cael ei ystyried yn hanfodol fel bod yr aelod yn gallu clywed yn uniongyrchol gan yr archwilwyr ar y Pwyllgor ARS, ac yna mynegi hyn i'r Pwyllgor A&Ph fel sy'n briodol.

4. Penodwyd unigolyn gan y Cyngor ar hyn o bryd i wasanaethu yn un o Ymddiriedolwyr AUPAS a enwebwyd gan y cyflogwr. Ers 2018, bu Ian MacEachern yn gwasanaethu'n Ymddiriedolwr AUPAS yn y cyswllt hwn. Cynigiwyd yn yr adroddiad i benodi George Ashworth yn Ymddiriedolwr AUPAS yn ei le am gyfnod pedair blynedd o 01 Awst 2020, a fyddai'n golygu y gallai barhau i wasanaethu yn Ymddiriedolwr AUPAS ar ôl i'w gyfnod ar y Cyngor ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

92. CYLCH GORCHWYL IS-BWYLLGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-141).

NODWYD

1. Yn ystod cylch diweddaraf cyfarfodydd yr is-bwyllgorau, roedd pob pwyllgor wedi ystyried cynigion i ddiwygio'u cylchoedd gorchwyl. Roedd y diwygiadau arfaethedig wedi eu nodi yn yr adroddiad, ac fe gawsant eu cymeradwyo gan y pwyllgorau dan sylw.

2. I ymateb i'r *Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru* gan Camm, cytunodd y Cyngor y dylai'r Pwyllgor Enwebiadau gael ei ailsefydlu. Datblygwyd cylch gorchwyl diwygiedig felly i'r pwyllgor hwn, ac roedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r cylchoedd gorchwyl (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

93. CYNLLUN STRATEGOL AR GYDRADDOLDEB 2020-24: CYNLLUN GWEITHREDU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); a'r Swyddog Cyfathrebu a Chyfle Cyfartal (COU1920-142).

NODWYD

1. Wrth ystyried drafft y Cynllun Strategol ar Gydraddoldeb 2020-24, roedd aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch wedi gofyn ar i gynllun gweithredu gael ei ddatblygu. Roedd y cynllun gweithredu arfaethedig yn dangos sut y bwriadai'r Brifysgol ymdrin â phum agwedd y Cynllun Strategol Cydraddoldeb dros y cyfnod tan 2024.

2. Cafodd y camau arfaethedig eu hystyried yn fanwl a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Ll&Ch ar 11 Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r cynllun gweithredu arfaethedig (**GWEITHREDU:** Swyddog Cyfathrebu a Chyfle Cyfartal).

94. DATGANIAD AR GANLYNIADAU GRADD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori drafft y Datganiad ar Ganlyniadau Gradd (COU1920-143).

NODWYD

1. Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd y DU (UKSCQA) Ddatganiad o Fwriad yn dweud y dylai darparwyr gyhoeddi Datganiad ar Ganlyniadau Gradd yn dadansoddi eu proffil sefydliadol o ran canlyniadau gradd, a dangos canlyniadau adolygiad sefydliadol mewnol. Rhaid i'r Datganiad gael ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu.

2. Cafodd y Datganiad ei ystyried a'i gadarnhau gan y Senedd ar 24 Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Datganiad ar Ganlyniadau Gradd i'w gyhoeddi (**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).

95. DATGANIAD POLISI CYNALIADWYEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); ac Ymgynghorydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (COU1920-144).

NODWYD

1. Roedd drafft y Datganiad Polisi Cynaliadwyedd yn amlinellu'r camau y byddai'n rhaid i'r brifysgol eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd rhag effeithiau ei gweithrediadau a'i gweithgareddau, ac i ddylanwadu ar ei staff, ei myfyrwyr a'r gymuned ehangach i gadw'r effeithiau hyn mor isel â phosibl trwy gamau gweithredu, a thrwy addysgu ac ymchwil y Brifysgol ei hun.

2. Cafodd y Datganiad Polisi ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor A&Ph ar 11 Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi (**GWEITHREDU:** Cynghorwr yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd).

96. COD YMARFER RHYDDID I LEFARU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-145).

NODWYD

1. Canol fis Mehefin 2020, argymhellodd Grŵp Goruchwylio Prevent y dylid diwygio'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru i adlewyrchu'r ffaith bod mwy o gyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar-lein.

2. Roedd mân ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cafodd y rhain eu cadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor Ll&Ch ar 29 Mehefin 2020.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

97. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UMABER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-146).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Heblaw am ddiweddaru'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad. Ond, roedd UMAber wedi rhoi gwybod ei fod yn dymuno datblygu fersiwn hollol newydd mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22.

PENDERFYNWYD

3. Cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academaidd i ddod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

98. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1920-147);

2. Datganiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (COU1920-148);

3. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol (COU1920-149);

4. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Safonau Iaith Gymraeg (COU1920-150); a

5. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1920-151).

NODWYD

6. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

99. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1920-152):

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (11 Mehefin 2020);

2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (11 a 26 Mehefin 2020);

3. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (26 Mehefin 2020);

4. Y Senedd (24 Mehefin 2020); a

5. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (12 Mehefin 2020)

NODWYD

6. Yr adroddiadau a ddaeth o'r is-bwyllgorau.

100. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. <u>Ffarwelio</u>

Roedd sawl un o'r aelodau'n dod i ben eu tymor ar y Cyngor ar 31 Gorffennaf 2020 a byddent yn gadael y corff llywodraethu bryd hynny. Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i'r canlynol am eu cyfraniad sylweddol, yn unigol ac ar y cyd, i waith y corff llywodraethu a'i is-bwyllgorau dros nifer o flynyddoedd:

1. Anne Davies, a wasanaethodd yn Aelod Annibynnol ers 01 Awst 2014;

2. Dr Hazel Davey, a wasanaethodd yn Aelod Annibynnol ers 01 Awst 2016;

3. Richard John, a wasanaethodd yn Aelod Annibynnol ers 01 Awst 2014; a

4. Ian MacEachern, a wasanaethodd yn Aelod Annibynnol ers 01 Awst 2012.